*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1875 (Cy.184)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *18 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *12 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 55(2)(f) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 12 Awst 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987**

**2.**—(1) Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987(**3**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 3 (dosbarthiadau defnydd) mewnosodwch:

> "(7) Where a building or other land is situated in Wales, class B8 (storage or distribution) does not include use of that building or land for the storage of, or as a distribution centre for, radioactive material or radioactive waste.
>
> (8) For the purpose of paragraph (7), "radioactive material" and "radioactive waste" have the meanings assigned to those terms in the Radioactive Substances Act 1993(**4**)."

(**1**) 1990 p.8.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(**3**) O.S.1987/764. Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/1567, O.S. 1992/610, O.S. 1992/657, O.S. 1994/724, O.S. 1995/297 ac O.S. 1999/293.

(**4**) 1993 p.12.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*John Marek*

18 Gorffennaf 2002

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio, mewn perthynas â Chymru, Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 ("y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd"), sy'n dynodi dosbarthiadau at ddibenion adran 55(2)(f) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Nid yw newid defnydd o adeilad neu dir arall yn golygu datblygu at ddibenion y Ddeddf os yw'r defnydd newydd a'r defnydd blaenorol, ill dau, o fewn yr un dosbarth penodedig.

Y diwygiad i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yw eithrio o Ddosbarth B8 (Storio neu ddosbarthu) ddefnydd o adeilad neu dir arall ar gyfer storio neu fel canolfan ddosbarthu ar gyfer deunydd ymbelydrol neu wastraff ymbelydrol (fel y'u diffinnir yn Neddf Sylweddau Ymbelydrol 1993), os yw'r adeilad neu'r tir arall wedi ei leoli yng Nghymru.